**CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL**

**English - below**

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 12 Tachwedd 2020 yn Neuadd Eglwys Gwnnws.

**Yn bresennol / *Present*:** Sarah Jones, Thomas Jones, Mair Humphreys a Tomos Jones

**Ymddiheurio / *Apologies*:** Wyn Evans, Siarl Owen a David M. Jones

Ar gychwyn y cyfarfod cafwyd munud o dawelwch i gofio am y Cynghorydd Dafydd Rhodri Davies, Pontargamddwr, Swyddffynnon a fu farw ar 7fed Medi 2020. Estynnwyd cydymdeimlad dwys hefyd i'r Cyng. Thomas Jones, a Dafydd M. Jones ar farwolaeth ei chwaer, Nancy Cook, Tynbwlch ac hefyd i'r Cynghorydd Mair Humphreys a'r farowlaeth Miss Aerona Jones, Nantllan.

Derbyniwyd cofnodion 27 Chwefror 2020fel rhai cywir.

Croesawodd y Cadeirydd Sarah Jones bawb i'r cyfarfod gan nodi diolch i bawb am ei cydweithrediad yn ystod blwyddyn heriol ac anodd iawn inni gyd yn sgil Covid-19. Nododd bod y Clerc a hithau wedi cyfathrebu yn gyson ar hyd y flwyddyn yn sgil unrhyw faterion brys a oedd angen sylw a wedi cysylltu hefyd a'r Cynghorwyr i gasglu barn a chymeradwyo yr hyn oedd yn angenrheidiol.

**Cyfarfod Blynyddol** – roedd rhan gyntaf y cyfarfod wedi ei neilltuio ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Cyflwynodd y Clerc adroddiad a'r weithgaredd y flwyddyn a chyflwynodd y fantolen flynyddol 2019-20 a oedd wedi ei archwilio yn fewnol gan y Cyng. Tomos Jones ac yn allanol gan Delyth M. Morgan. Yn sgil y sefyllfa cytunwyd yn unfrydol i ail-ethol y swyddogion am y flwydyn bresennol:

**Ethol Swyddogion / Appointment of Officials 2020-2021**:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd / Chair | Sarah Jones |
| Is-Gadierydd / Vice Chair | David M. Jones |
| Clerc a Trysorydd / Clerk and Treasurer | Annwen Isaac |
| Archwiliwr Mewnol / Internal Auditor (Cyngor) | Thomas Jones |
| Archwiliwr Mewnol / External Auditor | Delyth M. Morgan |

Atgofodd y Clerc bawb o'r Côd Ymddygiad a'r pwysigrwydd o cydymffurfio ag ef.

1. **Archwiliad Blynyddol 2019-2020:** cadarnhaodd y Clerc bod y cyfrfion wedi ei archwylio efo T. Jones yn fewnol a D Morgan yn allanol, erbyn hyn mae'r archwiliad yn orffenedig ac yn barod i'w cyflwyno i'r Archwiliwyr allanol, dipyn hwyrach na'r amserlen oherwydd sefyllfa Covid.. Cadarnhawyd bod adrannau 1 a 2 yn orffenedig a'i bod yn cael ei cyflwyno i'r Archwilwyr erbyn erbyn y Nadolig.. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gytun.

2. **Cyflwr Heolydd:** Adroddodd y Clerc ei bod wedi adrodd ar gyflwr yr heolydd yn Tŷ Nant, Penderlwyngoch, Rhiw Tynlon a Grid y Comin i'r Cyngor Sir ar amryw i achlysur. Gwelir nad oes unrhyw waith wedi ei gyflawni yn y mannau yma o hyd, ac felly cytunwyd bod y Clerc i gysylltu a'r Cynghorydd Sirol Ifan Davies am arweiniad pellach. Nododd y Cynghorwyr bryder am gyflwyr y mannau hyn, gan nodi bod gwell heolydd yn derbyn sylw.

3. Derbyniwyd llythyron diolch am roddion ariannol oddi wrth Abiwlans Awyr Cymru a Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion.

4. **Precept** – derbyniwyd taliadau fel a ganlyn £657 ar 24/4/2020, 29/7/2020 a 28/10/2020.

5. **Barclays**:

   29 Ebrill 2020 = £1,218.13
   29 Mehefin 2020 = £902.08
   28 Awst 2020 = £1,559-28
   30 Hydref 2020 = £2,216.48

6. **Western Power Distribution** – derbyniwyd taliad o £15.22.

7. **Taliadau** – cytunwyd ar y taliadau a ganlyn:

   £310.00 – Coderz ICT – am darpariaeth y We
   £316.05 – BHIB Insurance
   £35.00 – Canolfan Edward Richard, Ystrad Meurig (rhodd at golau'r goeden nadolig)
   £70.00 – Capel Caradog (tuag at gostau'r goeden nadolig a cyfraniad at Tir Dewi / Ambiwlans Awyr Cymru).
   £70.00 Eglwys Gwnnws
   £70.00 Canolfan Edward Richard
   £70.00 Capel M.C. Swyddffynnon
   £850.00 Cyflog Clerc

**8.Precept 2021-2022**– yn dilyn asesiad o'r costau sy'n debygol o dod i'n rhan cytunwyd ar brecept o £2,138.50 (£13.00 yr aneddele).

**Minutes of meeting held on Thursday, 12 November 2020 at Gwnnws Church Hall**

**Yn bresennol / *Present*:** Sarah Jones, Thomas Jones, Mair Humphreys a Tomos Jones

**Ymddiheurio / *Apologies*:** Wyn Evans, Siarl Owen a David M. Jones

At the beginning of the meeting a minute silence was held to remember Councillor Dafydd Rhodri Davies, Pontargamddwr, Swyddffynnon who passed away on 7th September 2020. Sympathy was also extended to Councillors Thomas Jones and David M Jones on the passing of their sister Nancy Cook, Tynbwlch and also to Councillor Mair Humphreys, Penderlwyngoch on the passing of Miss Aerona Jones, Nantllan.

Minutes of the meeting held 27 February 2020 were accepted as a correct record.

Chair, Sara Jones welcomed all to the meeting and thanked all for their co-operation during a difficult and challenging year because of Covid-19. She noted that the Clerk and herself had communicated regularly during the year and in light of any urgent matters which needed attention it had been brought to the attention of the Councillors for consideration and approval where necessary.

Annual Meeting – the first part of the meeting was the AGM. The Clerk produced a short report on the year's events and presented the Annual Accounts 2019-2020 who had been audited internally by Councillor Tomos Jones and externally by Delyth M. Morgan. In light of the current situation it was agreed to re-appoint the officers for the current year.

**Appointment of Officials 2020-2021**:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd / Chair | Sarah Jones |
| Is-Gadierydd / Vice Chair | David M. Jones |
| Clerc a Trysorydd / Clerk and Treasurer | Annwen Isaac |
| Archwiliwr Mewnol / Internal Auditor (Cyngor) | Thomas Jones |
| Archwiliwr Mewnol / External Auditor | Delyth M. Morgan |

The Clerk reminded all of the Code of Conduct and the importance of complying with it.

1. **Annual Audit 2019-2020**: Clerk confirmed that the accounts had been audited internally by T Jones and externally by D Morgan and that the audit is now complete and ready to present to External Audit much later than expected due to the Covid-19 situation.. It was confirmed that parts 1 and 2 were complete and to be presented for Audit by Christmas. All present agreed.

*2* **Road Conditions**: The Clerk reported that she had sent a further request to the County Council with regards to the condition of the roads at Tŷ Nant, Penderlwyngoch, Rhiw Tynlon and Grid y Comin. To date we see that no maintenance work has been undertaken and therefore it was agreed that the Clerk would raise this further with the County Councillor Ifan Davies for further guidance. The Councillors noted their general concern with regards to the condition of the roads noting that better roads were receiving attention.

*3* Thank you letters were received from Wales Air Ambulance and the International Sheep Dog Society for Ceredigion.

4. **Precept** – payments of £657 were received on 24/4/2020, 29/7/2020 a 28/10/2020.

5. **Barclays**:

   29 April 2020 = £1,218.13
   29 June 2020 = £902.08
   28 August 2020 = £1,559-28
   30 October 2020 = £2,216.48

6. **Western Power Distribution** –payment of £15.22 was received.

7. **Payments** – it was agreed to pay the following:

   £310.00 – Coderz ICT – Web services
   £316.05 – BHIB Insurance
   £35.00 – Canolfan Edward Richard, Ystrad Meurig (Christmas tree lights)
   £70.00 – Capel Caradog (Christmas tree lights and a donation to Tir Dewi / Wales Air Ambulance).
   £70.00 Gwnnws Church
   £70.00 Canolfan Edward Richard Centre
   £70.00 Swyddffynnon MC Chapel
   £850.00 – Clerk Salary

8. **Precept 2021-2022**– following a budget assessment of the costs for the forthcoming year it was agreed on a precept of £2,138.50 (£13.00 per household).